## Datblygu Cronfa - Astudiaeth Achos: Fferm Wynt Alltraeth Gwynt y Môr, Gogledd Cymru

innogy

Mabwysiadodd innogy ddull partneriaeth gyda nifer o randdeiliaid wrth ddatblygu Cronfa Gymunedol Gwynt y Môr a fydd yn buddsoddi oddeutu £19 miliwn dros oes y fferm wynt alltraeth. Aeth grŵp cynghori, gydag aelodau o'r sectorau cyhoeddus, preifat, addysg a hyfforddiant a'r sector gwirfoddol ati i gydgyfrannu eu harbenigedd a'u gwybodaeth leol i ddatblygu'r strwythur a'r dull cyflawni gorau posib ar gyfer y gronfa, gan adeiladu ar yr adborth a gafwyd o'r ymgynghoriad cymunedol ar y gronfa. Esgorodd y bartneriaeth hon ar gronfa bwrpasol, oedd wedi'i theilwra i roi sylw i fylchau mewn cyllid ac i adeiladu ar arferion cyllido llwyddiannus oedd yn bodoli eisoes, gan sicrhau bod y cronfeydd newydd, hyblyg hyn yn cael yr effaith fwyaf bosib a'u bod yn gallu darparu ymhell y tu hwnt i'r buddsoddiad gwreiddiol o £19 miliwn.

### Cam 1 - Ennyn diddordeb y gymuned ehangach

Ym mis Chwefror 2012, gwrandawodd Innogy ar sylwadau dros 1000 o sefydliadau ac unigolion ar flaenoriaethau, strwythur a gweithrediad posib Cronfa Gymunedol Gwynt y Môr. Roedd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar ba flaenoriaethau y dylai'r gronfa roi sylw iddynt, sut y dylid ei rhedeg a pha gymunedau a ddylai gael budd ohoni.

### Cam 2 - Y Grŵp Cynghori

Casglodd Innogy Grŵp Cynghori at ei gilydd o blith rhanddeiliaid lleol oedd yn cynrychioli ardal Gogledd Cymru i roi cyngor a chynnig arbenigedd i gefnogi Innogy gyda'r gwaith o ddatblygu canlyniadau'r ymgynghoriad a llunio strwythur ar gyfer y gronfa. Bu'r grŵp hefyd yn archwilio sut y bydd ein cyllid yn gweithio ochr yn ochr â gweithgareddau a ffrydiau cyllido eraill er mwyn sicrhau dull mwy cydgysylltiedig o gyllido. Roedd aelodaeth y grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o Awdurdod Lleol a Sector Gwirfoddol pob un o'r tair sir (Conwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint) yn ogystal â chynrychiolwyr o'r sector Addysg Uwch, mentrau cymdeithasol a'r sector busnes. Cyfarfododd y Grŵp Cynghori unwaith y mis a rhannwyd nodiadau o'r cyfarfodydd ar wefan Innogy er mwyn sicrhau tryloywder.




**Dyma'r themâu cychwynnol y cytunwyd arnynt ar gyfer y gronfa:**

**Thema 1** – Creu cymunedau cryf, cydlynus a chynaliadwy
**Thema 2** – Datblygu cymunedau ffyniannus a mentrus gyda thŵf economaidd cryf
**Thema 3** – Lleihau tlodi ac anghydraddoldeb mewn cymunedau.

### Cam 3 – Gweinyddu'r Gronfa

Roeddem wedi cynnal proses gaffael agored i ganfod sefydliad addas i redeg y gronfa. Roedd amrediad o sefydliadau wedi dangos llawer iawn o ddiddordeb yn y cyfle anarferol a chyffrous hwn. Hysbysebwyd y cyfle i dendro yn y cyfryngau lleol, a derbyniodd Gwynt y Môr 12 datganiad o ddiddordeb a chyflwynwyd wyth cais am dendr llawn. Yn dilyn proses gyfweld fanwl pleser o'r mwyaf i ni oedd penodi Cymorth Gwirfoddol a Chymunedol Conwy yn cydweithio â Chynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych a Sir y Fflint. I gael rhagor o wybodaeth am y gronfa, ewch i **www.gwyntymorfund.cymru**

> **"Mae'r gronfa yn gwneud gwaith gwych ac yn enghraifft ardderchog o'r model budd cymunedol"**
>
> Peter Davies, Chairman, **Wales Council for Voluntary Action**